

Rwy'n cadarnhau nad ydw i wedi cyflwyno unrhyw destun deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol fel fy ngwaith fy hun. Rwy'n cadarnhau bod gennyf gopïau o'm drafftiau, fy nodiadau, ac unrhyw adnoddau eraill y defnyddiais cyn ac ar ôl defnyddio offer deallusrwydd artiffisial y gellir gofyn i mi eu darparu fel tystiolaeth.

	Targed/target	Yr hyn yr wyf wedi'i wneud yn yr aseiniad hwn What I have done in this assignment...
Targed/Target 1	Defnyddia ffurf gryno y ferf wrth gyfeirio at ffynonellau academiaidd e.e. <u>Cymharodd</u> Freeman et al	Rwy wedi defnyddio ffurf gryno'r ferf wrth i mi gyfeirio at ffynonellau academiaidd.
Targed/Target 2		
Targed/Target 3		

Gwerthusiad beirniadol o ddatblygiad targed strategol mewn Cynllun Datblygu Ysgol: Camau Gweithredu, Effaith ac Adfyfyrdodau ar sail Tystiolaeth

Bydd y traethawd yma'n adfyfrio yn feirniadol ar bwynt gweithredu o gynllun Datblygu Ysgol, ysgol bob oed yn Orllewin Cymru. Y targed strategol o dan sylw yw datblygu sgiliau darllen Cymraeg a Saesneg y disgyblion ar draws yr ysgol. Er mwyn dilyn canllawiau BERA (2024), gelwir yr ysgol yn Ysgol A er mwyn cadw enw'r ysgol yn gyfrinachol. Mae 839 o ddisgyblion yn yr ysgol ac mae 9.9% o'r disgyblion hyn yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim (Estyn, 2023a). Dim ond canran bach iawn sef 7% o'r disgyblion sy'n siarad Cymraeg yn y cartref (Estyn, 2023). Trefnwyd y traethawd mewn i dair adran. Trafodwyd pwrpas Cynlluniau Datblygu Ysgol yn adran gyntaf y traethawd. Yn ogystal, cyfeiriwyd at lenyddiaeth ddiweddar sy'n ymwneud â datblygu sgiliau darllen disgyblion. Yn dilyn hyn, dadansoddwyd dull yr ysgol o fynd i'r afael â'r targed. Er bod y taged yma yn berthnasol i bob grŵp oedran yn yr ysgol, canolbwyntiwyd yn benodol ar y dulliau a ddefnyddiwyd yn sector uwchradd yr ysgol. Yn olaf adfyfiriwyd ar ymarfer fy hun i gefnogi ymdrechion yr ysgol i gyflawni'r targed.

Adolygiad llenyddiaeth

Yn gyntaf bydd pwrpas Cynlluniau Datblygu Ysgol yn cael ei drafod. Fe wnaeth Llywodraeth Cymru hi'n ofynnol i bob ysgol yng Nghymru cael Cynllun Datblygu Ysgol mewn lle erbyn mis Medi 2015 (Llywodraeth Cymru, 2015). Cynllun datblygu ysgol yw dogfen sy'n amlinellu'r camau mae ysgol yn bwriadu cymryd i wella canlyniadau dysgu i ddisgyblion (Llywodraeth Cymru, 2014). Anghenion disgyblion yr ysgol sydd wrth wraidd y cynllun (Llywodraeth Cymru, 2024a).

Gall cynlluniau datblygu ysgol gynnwys targedau byr a hir dymor yr ysgol sy'n helpu nhw cyflawni eu blaenoriaethau (Llywodraeth Cymru, 2014). Pwysleisia Llywodraeth Cymru (2024a) bod hi'n hanfodol i ysgolion ystyried 'blaenoriaethau cenedlaethol' wrth benderfynu ar flaenoriaethau datblygu'r ysgol. Enghreifftiau o flaenoriaethau cenedlaethol yw codi safonau addysg llythrennedd a rhifedd (Llywodraeth Cymru, 2014). O ran addysg llythrennedd, roddid pwyslais mawr ar ddatblygu sgiliau darllen plant (Llywodraeth Cymru, 2024b).

Yn ogystal, mae'n bwysig bod gan ysgolion dealltwriaeth o bolisiau a strategaethau ehangach Cymru (Llywodraeth Cymru, 2024a). Er enghraifft, mae Strategaeth Cymraeg 2050 yn amlinellu dyhead Llywodraeth Cymru o gael miliwn o siaradwyr Cymraeg hyderus erbyn 2050 (Llywodraeth Cymru, 2017). Mae'r strategaeth hefyd eisiau sicrhau bod pob siaradwr Cymraeg o bob lefel "yn cael anogaeth a chymorth i ddatblygu ei sgiliau Cymraeg ymhellach" (Llywodraeth Cymru, 2017, tt. 11). Gwelwn felly bod blaenoriaeth ysgol A, sef datblygu sgiliau darllen Cymraeg disgyblion yn cyd-fynd gyda'r polisi yma wrth i'r ysgol cefnogi disgyblion i gynyddu eu hyfedredd Cymraeg.

Mae'n rhaid i ysgolion ymgysylltu gyda phroses hunanwerthuso cyn penderfynu ar flaenoriaethau (Llywodraeth Cymru, 2014). Awgryma Schildkamp (2019) bod y broses o ystyried data yn hanfodol i wella perfformiad ysgol. Gall ysgolion edrych ar amrywiaeth o dystiolaeth megis canlyniadau profion PISA ac adroddiadau arolygu blaenorol yr ysgol (Llywodraeth Cymru, 2014). Yn ogystal gall ysgolion hefyd ystyried data llai ffurfiol megis arsylwadau dosbarth (Schildkamp, 2019). Anogwyd arweinwyr ysgolion i gydweithio gyda phartneriaid a rhandaliad yr ysgol i gydnabod cryfderau'r ysgol a pha agweddau sydd angen ei ddatblygu (Llywodraeth Cymru, 2015). Cyfeiria Estyn (2020) at arfer dda o ysgol yn hunan arfarnu yn onest trwy ystyried persbectif rhieni, disgyblion a'r gymuned ehangach o'r ysgol.

Ar ôl i'r ysgol hunan arfarnu gallant lunio cynllun datblygu ysgol sy'n nodi blaenoriaethau gwella'r ysgol, targedau'r ysgol a'r strategaeth datblygu broffesiynol sef y ffordd y mae ysgol yn bwriadu gwella ansawdd addysgu'r ysgol (Llywodraeth Cymru, 2014). Ar ôl i'r ysgol gymryd camau i gyrraedd y targed mae'n holl bwysig i ysgolion adolygu effaith y targedau (Llywodraeth Cymru, 2014). Mae angen gwneud hwn yn rheolaidd yn ystod y flwyddyn trwy edrych ar yr effaith mae'r targed wedi cael ar y dysgwyr (Llywodraeth Cymru, 2014). O ganlyniad, ystyrir Cynllun Datblygu Ysgol fel dogfen byw (Llywodraeth Cymru, 2014).

Nesaf, bydd llenyddiaeth ddiweddar sy'n ymwneud â datblygu sgiliau darllen disgyblion yn cael ei ymhelaethu. Cafodd y pandemig effaith negyddol ar sgiliau darllen plant Cymru, yn enwedig ar y disgyblion oedd yn gymwys am brydau ysgol am ddim (Estyn, 2023b). O ganlyniad, lledodd y bwlch rhwng sgiliau darllen y disgyblion mwy breintiedig â'r disgyblion llai breintiedig (Estyn, 2023b). Roedd hwn oherwydd bod gan ddisgyblion breintiedig mynediadau at adnoddau amrywiol oedd yn eu caniatáu i astudio o'r cartref (Estyn, 2023b). Dengys canlyniadau Pisa 2022 bod sgôr darllen cyfartalog disgyblion 15 oed yng Nghymru wedi gostwng ers y prawf diwethaf yn 2018 (Llywodraeth Cymru, 2023). Sgôr darllen cyfartalog y disgyblion o Gymru oedd 466 oedd yn is na'r sgôr cyfartalog y 27 gwlad oedd wedi cymryd rhan yn y profion (Llywodraeth Cymru, 2023).

Mae datblygu sgiliau darllen plant yn rhan hanfodol o addysg llythrennedd ac mae hefyd yn helpu disgyblion ymdopi gyda sawl agwedd o fywyd pob dydd (Rasinski, 2022). Pwysleisia Sibieta (2024) bod hi'n hanfodol i ddisgyblion datblygu sgiliau darllen er mwyn helpu nhw ennill cymwysterau addysgiadol. Mae'r disgyblion sy'n llwyddo i ennill cymwysterau yn manteisio oherwydd maen nhw'n fwy tebygol o gael swyddi a derbyn enillion uwch (Sibieta, 2024).

Ym mis Tachwedd 2024 cyhoeddwyd bod Lywodraeth Cymru yn mynd i fuddsoddi £1.1 miliwn mewn i ddatblygu rhaglennu llythrennedd a rhifedd Cymru ymhellach (Llywodraeth Cymru, 2024c). Fe fydd peth o'r arian yma yn mynd tuag at ddarparu cyrsiau hyfforddi i athrawon (Llywodraeth Cymru, 2024c). Pwrpas y crysau yma yw dysgu athrawon sut gellid cynorthwyo disgyblion i fwynhau a charu darllen (Llywodraeth Cymru, 2024c). Mae hwn yn holl bwysig i'r sector uwchradd o ystyried bod agweddau plant ysgol uwchradd tuag at ddarllen yn fwy tebygol o fod yn negyddol (Clark a Rumbold, 2006).

Trafodir manteision darllen am bleser yn eang mewn llenyddiaeth (Cremin, 2020). Dengys ymchwil bod darllen am bleser yn cynorthwyo pobl ifanc i ddatblygu i fod yn ddarllenwyr a dysgwyr gydol oes (Owen, 2003) ac mae cydberthynas cryf rhwng darllen am bleser a chyraeddiadau academaidd plant (Whitten et al. 2019). Fodd bynnag, mae disgyblion sy'n dod

o gefndiroedd difreintiedig yn llai tebygol o ddarllen am bleser (Clark a Rumbold, 2006). Un ffordd o ysgogi plant i ddarllen yw trwy ddarparu amrywiaeth o ddeunyddiau darllen iddynt yn yr ysgol megis llyfrau, llyfrau comig a blogiau (Small ac Arnone, 2011). Mae Llywodraeth Cymru (2024b) yn cydnabod bod yr ysgolion gorau yn sicrhau bod amrywiaeth o ddeunyddiau darllen ar gael i'r disgyblion.

Pwysleisiwyd gan Estyn (2024a) bod angen i ysgolion cynllunio'n strategol i sicrhau bod disgyblion yn cael y cyfle i ddatblygu uwch fedrau darllen ar draws y cwricwlwm, nid dim ond o fewn gwersi iaith. Mae hwn yn bwysig o ystyried bod agweddau plant tuag at ddarllen yn gysylltiedig i raddau helaeth gyda'u gallu darllen (Clark a Rumbold, 2006). Gall athrawon ddefnyddio'r strategaeth darllen ar goedd i gynorthwyo disgyblion gyda'u darllen (Nambi 2019). Mae'r strategaeth yma eisoes wedi profi'n llwyddiannus mewn ysgolion cynradd (Cehyan a Yıldız, 2021), fodd bynnag dengys ymchwil Hurst a Grriffity (2015) bod disgyblion hŷn hefyd yn manteisio ohoni. Mae clywed athro yn darllen ar goedd yn cynorthwyo disgyblion i ddeall testunau sy'n cynnwys geirfa newydd a'u helpu i ynganu'n gywir (Hurst a Grriffity, 2015).

Amlinellwyd strategaethau eraill i ddatblygu sgiliau darllen disgyblion uwchradd yn llenyddiaeth. Er enghraifft darganfuwyd bod darparu disgyblion gyda gwybodaeth gefndirol cyn darllen yn gwella dealltwriaeth disgyblion o destunau (Watson et al. 2012). Gall hwn gynnwys rhoi diffiniadau o dermau anghyfarwydd neu esboniad o gysyniadau cymhleth o fewn testun (Watson et al. 2012). Yn ychwanegol gall y strategaeth aralleirio RAP cynyddu dealltwriaeth darllen disgyblion (Hagaman a Reid, 2008). Mae'r strategaeth yma yn cynnwys: Gofyn i ddisgyblion ddarllen paragraff (Hagaman a Reid, 2008). Gofyn i'r disgyblion beth yw'r prif syniad sy'n ymddangos ac yna gofyn iddyn nhw grynhoi'r prif syniad yng ngeiriau eu hun (Hagaman a Reid, 2008).

Dadansoddiad o ddull yn ysgol o ddatblygu sgiliau darllen disgyblion

Nesaf, bydd dull Ysgol A o fynd i'r afael â'r targed yn cael ei ddadansoddi. Mae gan Ysgol A nod ehangach sef i sicrhau bod pob disgybl yn cael y cyfle i gyrraedd eu gwir botensial. Mae'r ysgol yn cydnabod bod datblygu sgiliau llythrennedd y disgyblion yn ganolog i hyn. Dengys hyn bod y targed o ddatblygu sgiliau darllen disgyblion yn cyd-fynd â dyhead ehangach yr ysgol.

Ystyriodd Ysgol A tystiolaeth amrywiol cyn blaenoriaethu'r targed yma. Er enghraifft, daeth uwch dîm arwain yr ysgol i'r casgliad bod angen datblygu sgiliau darllen disgyblion ar draws bob cam cynnydd ar ôl cynnal arsylwadau gwersi. Trwy arsylwi ar wersi gall athrawon ennill mewnwelediad at lefel dealltwriaeth, sgiliau a pherfformiad disgyblion (Weston et al. 2021). Yn ogystal, chwaraeodd canlyniadau profion cenedlaethol ran yn llunio'r flaenoriaeth hon. Mae profion safonedig megis profion cenedlaethol yn galluogi ysgolion weld sut mae disgyblion yr ysgol yn perfformio o gymharu ag unigolion arall o'r un grŵp oed (Nicholas, 2017). Ystyriodd yr ysgol canlyniadau'r profion PISA hefyd a oedd yn dynodi gostyngiad yn sgiliau darllen plant 15 oed yng Nghymru (Llywodraeth Cymru, 2023).

Mae Ysgol A wedi cymryd sawl cam i ddatblygu sgiliau darllen y disgyblion. Er enghraifft, mae'r ysgol yn sicrhau bod gan y disgyblion cyfleoedd amrywiol i ddarllen ar goedd. Mae'r ysgol yn darparu nofelau i ddisgyblion blwyddyn saith ac wyth ddarllen adeg cofrestri. Pob bore mae'r disgyblion yn eu tro yn darllen darnau o'r nofel ar goedd. Amlygwyd yn yr adolygiad llenyddiaeth bod athrawon sy'n darllen ar goedd yn helpu disgyblion gyda'u hynganiad o eiriau (Hurst a Grriffity, 2015). Gwelwyd canlyniadau cadarnhaol hefyd wrth i ddisgyblion ddarllen ar goedd i'w gilydd (Nambi, 2019). Er enghraifft gall hwn gynyddu mwynhad a hyder plant wrth ddarllen (Nambi, 2019). Yn ychwanegol gall adeiladu ar eirfa disgyblion (Nambi, 2019). Mae cynllun 'ffrindiau darllen' yr ysgol hefyd yn rhoi'r cyfle i ddisgyblion blwyddyn saith ddarllen ar goedd i ddisgyblion blwyddyn unarddeg.

Fe wnaeth Ysgol A hefyd trefnu hyfforddiant i holl staff yr ysgol ar sut i ddatblygu medrau darllen plant. Mae hwn yn arfer dda yn ôl Estyn (2024b). Trafodwyd pwysigrwydd dewis testunau darllen addas ar gyfer y disgyblion yn yr hyfforddiant hefyd. Caiff y syniad yma ei chefnogi gan Arias (2007) sy'n honni bod hi'n holl bwysig i athrawon ystyried lefel darllen y dysgwyr wrth ddewis testunau addas ar eu cyfer.

Mae ysgol A hefyd yn cynnig ymyriadau darllen i ddisgyblion cynradd fodd bynnag, nid yw'r ymyriadau ar gael i ddisgyblion uwchradd yr ysgol. Er mwyn datblygu dull yr ysgol o fynd i'r afael â'r targed ymhellach, gall ysgol A rhoi hwn ar waith o ystyried pa mor fuddiol y mae ymyriadau i ddisgyblion. Ymchwiliodd Brooks (2009) mewn i'r ffyrdd gorau o gynorthwyo disgyblion cynradd ac uwchradd Cymru oedd ag anawsterau llythrennedd. Darganfuwyd bod angen i ddisgyblion sydd ag anawsterau llythrennedd dderbyn cymorth ychwanegol i ddal lan ar sgiliau llythrennedd (Brooks, 2009). Gall ymyriadau effeithiol ddyblu cynnydd llythrennedd disgyblion (Brooks, 2009). Gall ysgol A hefyd defnyddio mwy o'r strategaeth aralleirio RAP yn y gwersi dyniaethau oherwydd gall gynyddu sgiliau darllen plant (Elida ac Oktadela, 2022).

Er mwyn gwerthuso llwyddiant y targed mae uwch dîm arwain yr ysgol yn arsylwi gwersi ar draws yr ysgol yn rheolaidd er mwyn darganfod os oes cynnydd yn sgiliau darllen y disgyblion. Wrth wneud hyn mae'r uwch dîm arwain yn asesu pa mor dda mae'r disgyblion yn darllen ar goedd a defnyddio eu medrau darllen. Yn ogystal, mae athrawon yr ysgol yn craffu ar lyfrau disgyblion yn gyson gan ganolbwyntio ar ansawdd gwaith darllen a deall y disgyblion. Canolbwyntiwyd hefyd ar ganlyniadau profion darllen cenedlaethol i weld os oes gwelliant ym marciau'r disgyblion.

Gwerthusiad o fy ymarfer i ddatblygu sgiliau darllen disgyblion

Cymerais gamau yn fy ymarfer i fynd i'r afael â tharged yr ysgol. Er enghraifft, fe wnes i addysgu'r dechneg anodi i ddisgyblion blwyddyn wyth. Mae anodi yn cael ei ystyried yn un o'r medrau darllen sylfaenol (Estyn, 2024b). Er mwyn gwneud hyn, fe wnes i baratoi taflennu gwybodaeth i'r disgyblion oedd yn sôn am genedlaetholdeb. Yn gyntaf, fe wnes i esbonio i'r disgyblion bod anodi yn golygu arllwio neu tanlinelli bwyntiau allweddol o'r testun (Estyn, 2024b). Ar ôl hyn gofynnais tri chwestiwn arweiniol i'r disgyblion cyn iddynt anodi'r testunau sef: Beth yw cenedlaetholdeb? Gallwch chi ddarganfod ffeithiau am genedlaetholdeb? A sut mae cenedlaetholdeb yn gallu arwain at ryfel? Aeth y disgyblion ymlaen i arllwio y pwyntiau allweddol yn y testun oedd yn ateb y cwestiynau yma.

Talodd y disgyblion sylw manwl i'r dasg anodi a llwyddon nhw i'w gorffen gyda brwdfrydedd. Dengys ymchwil Lloyd et al. (2022) bod anodi yn cynyddu ymgysylltiad disgyblion gyda darnau darllen. Mae hwn oherwydd bod anodi yn galluogi disgyblion i ddelweddu wrth ddarllen (Zywica a Gomez, 2008). Yn ogystal, wrth i mi gwestiynu'r disgyblion ar ddiwedd y dasg sylweddolais fod gan y disgyblion dealltwriaeth gadarn o'r pwyntiau allweddol a thrafodwyd yn y testun. Profwyd bod anodi yn galluogi disgyblion i ddarllen a deall yn fwy llwyddiannus (Lloyd et al. 2022) a chofio'r wybodaeth a darllenwyd (Zywica a Gomez, 2008). Byddaf yn parhau i addysgu'r strategaeth yma i ddisgyblion yn y dyfodol yn enwedig pan fyddaf yn cyflwyno testunau cymhleth iddynt. Gall y strategaeth anodi cynorthwyo plant i dorri testunau cymhleth i lawr (Lloyd et al. 2022).

Fe wnes i hefyd addysgu'r strategaeth aralleirio RAP i ddisgyblion blwyddyn saith i'w helpu dadansoddi ffynonellau. Esboniais i'r disgyblion bod angen iddyn nhw ddarllen y testun, darganfod y prif thema ac yna ei aralleirio yng ngheriau eu hun (Hagaman a Reid, 2008). Pwysleisia Hagaman et al. (2010) bod angen i athrawon modelu'r strategaeth ac esbonio eu proses meddwl er mwyn sicrhau bod y disgyblion yn gallu eu defnyddio yn effeithiol. Fe wnes

i felly modelu holl gamau'r strategaeth o flaen y dosbarth. Ar ôl hyn, cafodd y disgyblion cyfle i ddefnyddio'r strategaeth aralleirio RAP i'w helpu dadansoddi'r ddwy ffynhonnell arall.

Daeth hi'n amlwg wrth asesu dealltwriaeth y disgyblion eu bod wedi llwyddo i ddeall prif negeseuon y ffynonellau yn dda. Awgryma ymchwil bod y strategaeth aralleirio RAP yn gallu cryfhau dealltwriaeth disgyblion o destunau darllen (Elida ac Oktadela, 2022). Yn ogystal, ymgysylltodd y rhan fwyaf o ddisgyblion yn syfrdanol gyda'r dasg a'r strategaeth. Dyma un o fanteision pellach defnyddio'r strategaeth yn ôl Chinijani ac Asl (2017). Mae hwn yn ganfyddiad cadarnhaol o ystyried bod disgyblion uwchradd yn fwy tebygol o gael agweddau negyddol tuag at ddarllen (Clark a Rumbold, 2006).

Er i mi fodelu'r strategaeth aralleirio RAP ar ddechrau'r wers ac esbonio gofynion y dasg, sylweddolais nid oedd canran bach o ddisgyblion wedi defnyddio'r strategaeth RAP cyn ysgrifennu eu canfyddiadau am y ffynonellau. Argymhellodd Watson et al. (2012) bod angen atgoffa rhai disgyblion yn rheolaidd i ddefnyddio strategaethau prosesu nes iddynt eu hintegreiddio fel arfer cyffredin (Watson et al. 2012). O ganlyniad, y tro nesaf byddaf yn addysgu'r strategaeth aralleirio byddaf yn atgoffa'r disgyblion i'w ddefnyddio yn rheolaidd.

Casgliad

I gloi, gwerthusodd y traethawd yma targed strategol mewn Cynllun Datblygu Ysgol, ysgol bob oed yng Ngorllewin Cymru. Y targed strategol o dan sylw oedd datblygu sgiliau darllen disgyblion. Darganfuwyd bod yr ysgol wedi ystyried amrywiaeth o dystiolaeth cyn penderfynu ar y targed megis canlyniadau profion darllen cenedlaethol a'r profion PISA oedd yn amlygu gostyngiad yn sgiliau darllen plant 15 oed yng Nghymru (Llywodraeth Cymru, 2023). Mae'n holl bwysig i ysgolion ystyried tystiolaeth am gynnydd disgyblion cyn penderfynu ar dargedau (Llywodraeth Cymru, 2023). Mae hwn yn caniatáu ysgolion llunio cynllun datblygu ysgol sy'n gwella canlyniadau dysgu i ddisgyblion (Llywodraeth Cymru, 2014).

Mae ysgol A wedi cymryd camau amlwg i wella sgiliau darllen y disgyblion trwy gynyddu'r cyfleoedd sydd ar gael iddynt ddarllen ar goedd a thrwy hyfforddi staff ar sut i ddatblygu medrau darllen plant. Er mwyn datblygu dull yr ysgol o fynd i'r afael a'r targed ym mhellach gall yr ysgol cynnig ymyriadau llythrennedd i ddisgyblion uwchradd gan eu bod yn gallu dyblu cynnydd ddisgyblion (Brooks, 2009).

Mae'r profiad yma wedi cefnogi fy safonau proffesiynol wrth i mi ddarllen yn eangach ac ystyried canfyddiadau ymchwil sy'n dynodi sut gellid datblygu sgiliau darllen plant. Fe wnes i hefyd gymryd arweinyddiaeth yn fy addysgu trwy dreialu strategaeth sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar lawr y dosbarth megis anodi i gyfrannu at darged yr ysgol. O ganlyniad mae gen i ddealltwriaeth dda o sut gellid datblygu sgiliau darllen plant. Gan fy mod wedi adfyfyrio yn feirniadol ar fy ymarfer rwy hefyd yn gwybod sut allaf addasu fy addysgu yn y dyfodol i ddatblygu sgiliau darllen disgyblion ym mhellach. Byddaf yn parhau i gyfrannu at dargedau ysgolion trwy gydol fy ngyrfa fel athrawes i wella canlyniadau dysgu i'r disgyblion.

Llyfryddiaeth

Arias, I.J. (2007). Selecting reading materials wisely. *Letras*, (41), tt.131-151. Ar gael yn: <https://doi.org/10.15359/rl.1-41.7>

BERA. (2024). *Ethical Guidelines for Educational Research*. Ar gael yn: <https://www.bera.ac.uk/publication/ethical-guidelines-for-educational-research-fifth-edition-2024-online> (Cyrchwyd: 6 Chwefror 2025).

Brooks, G. (2009). *What works for pupils in Wales with literacy difficulties?*. Ar gael yn: : http://publications.teachernet.gov.uk/eOrderingDownload/pri_lit_what_works0068807.pdf (Cyrchwyd: 24 Chwefror 2025).

Chinijani, M.E. a Asl, H.D. (2017). The effect of RAP paraphrasing strategy on improving Iranian EFL learners' reading comprehension. *International Research Journal*, 3(6), tt.786-794.
Clark, C. a Rumbold, K. (2006). Reading for Pleasure: A Research Overview. Ar gael yn: <https://eric.ed.gov/?id=ED496343> (Cyrchwyd: 15 Chwefror 2025)

Cremin, T. (2020). Reading for pleasure: Challenges and opportunities. yn: Davison, J. a Daly, C. *Debates in English teaching*, Oxon: Routledge, tt. 92-102.

Elida, Y. a Oktadela, R. 2022. The effect of RAP paraphrasing strategy and semantic map strategy on reading comprehension. *Journal of English Language and Education*, 7(1), tt.68-74. Ar gael yn: <https://doi.org/10.31004/jele.v7i1.235>

Estyn. (2019). *Adroddiad ar Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg*. Ar gael yn: <https://www.llyw.cymru/attachments/download.asp?file=212&type=pdf> (Cyrchwyd 12 chweffror 2025)

Estyn. (2020). *Datblygu systemau ysgol gyfan i ysgogi gwelliant cyflym*. Ar gael yn: <https://www.estyn.llyw.cymru/adnoddau-gwella/datblygu-systemau-ysgol-gyfan-i-ysgogi-gwelliant-cyflym/> (Cyrchwyd: 16 Chwefror 2025)

Estyn. (2023a). *A report on* [redacted] Ar gael yn: [https://www.estyn.gov.wales/system/files/2023-04/Inspection%20report%20\[redacted\]2023_2.pdf](https://www.estyn.gov.wales/system/files/2023-04/Inspection%20report%20[redacted]2023_2.pdf) (Cyrchwyd: 4 Chwefror 2025).

Estyn. (2023b) *Datblygu medrau darllen Saesneg disgyblion o 10 i 14 mlwydd oed*. Ar gael yn: <https://www.llyw.cymru/datblygu-medrau-darllen-saesneg-disgyblion-o-10-i-14-mlwydd-oed-html> (Cyrchwyd: 16 Chwefror 2025)

Estyn. (2024a). *Adroddiad ar:* [REDACTED] Ar gael yn:
[https://estyn.gov.wales/app/uploads/2025/01/Adroddiad-arolygiad-\[REDACTED\]2025.pdf](https://estyn.gov.wales/app/uploads/2025/01/Adroddiad-arolygiad-[REDACTED]2025.pdf)
(Cyrchwyd: 12 Chwefror 2025)

Estyn. (2024b). *Datblygu medrau darllen Cymraeg Disgyblion 10-14 oed*. Ar gael yn:
<https://www.estyn.llyw.cymru/app/uploads/2024/09/Datblygu-Medrau-Darllen-Cymraeg-Disgyblion-10-14-oed.pdf> (Cyrchwyd: 13 Chwefror 2025).

Hagaman, J.L. a Reid, R. (2008). The effects of the paraphrasing strategy on the reading comprehension of middle school students at risk for failure in reading. *Remedial and Special Education*, 29(4), tt.222-234. Ar gael yn: <https://doi.org/10.1177/0741932507311638>

Hagaman, J.L. Luschen, K. a Reid, R. (2010). The “RAP” on reading comprehension. *Teaching exceptional children*, 43(1), tt.22-29. Ar gael yn:
<https://doi.org/10.1177/004005991004300103>

Hurst, S. a Griffity, P. (2015). Examining the effect of teacher read-aloud on adolescent attitudes and learning. *Middle Grades Research Journal*, 10(1), tt.31-47.

Lloyd, Z.T. Kim, D. Cox, J.T. Doepker, G.M. a Downey, S.E. (2022). Using the annotating strategy to improve students' academic achievement in social studies. *Journal of Research in Innovative Teaching & Learning*, 15(2), tt.218-231. Ar gael yn:
<https://doi.org/10.1108/JRIT-09-2021-0065>

Llywodraeth Cymru. (2014). *Cynlluniau datblygu ysgolion*. Ar gael yn:
<https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-03/cynlluniau-datblygu-ysgolion.pdf> (cyrchwyd: 16 Chwefror 2025).

Llywodraeth Cymru. (2015). *Theme 1: Leadership for a self-improving system*. Ar gael yn:
<https://dera.ioe.ac.uk/id/eprint/23239/2/150615-face-theme1-en.pdf> (Cyrchwyd: 16 Chwefror 2025)

Llywodraeth Cymru. (2017). *Cymraeg 2050*. Ar gael yn:
<https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-03/cymraeg-2050-strategaeth-y-gymraeg-v1-1.pdf> (Cyrchwyd :16 Chwefror 2050)

Llywodraeth Cymru. (2023). *Cyflawniadau disgyblion 15 mlwydd oed (Rhaglen Rhyngwladol Asesu Myfyrwyr) PISA adroddia Cenedlaethol: 2022*. Ar gael yn:
<https://www.llyw.cymru/cyflawniad-disgyblion-15-mlwydd-oed-rhaglen-ryngwladol-asesu-myfyrwyr-pisa-adroddiad-cenedlaethol-2022> (Cyrchwyd: 14 Chwefror 2025)

Llywodraeth Cymru. (2024a). *Canllawiau gwella ysgolion: fframwaith ar gyfer gwerthuso, gwella ac atebolrwydd*. Ar gael yn: <https://hwb.gov.wales/gwerthuso-gwella-ac-atebolrwydd/canllawiau-gwella-ysgolion-fframwaith-ar-gyfer-gwerthuso-gwella-ac-atebolrwydd/> (Cyrchwyd: 16 Chwefror 2025).

Llywodraeth Cymru. (2024b). *Datblygu medrau darllen Cymraeg disgyblion 10 i 14 oed: ymateb y llywodraeth*. Ar gael yn: <https://www.llyw.cymru/datblygu-medrau-darllen-cymraeg-disgyblion-10-i-14-oed-ymateb-y-llywodraeth-html> (Cyrchwyd: 16 Chwefror 2025)

Llywodraeth Cymru. (2024c). *Presenoldeb, llythrennedd a rhifedd yn hanfodol ar gyfer gwella safonau ysgolion wrth i ystadegau ddangos bod lefelau presenoldeb ysgolion yn gwella*. Ar gael yn: <https://www.llyw.cymru/presenoldeb-llythrennedd-rhifedd-yn-hanfodol-ar-gyfer-gwella-safonau-ysgolion-wrth-i-ystadegau> (Cyrchwyd: 13 Chwefror 2025)

Nambi, R. (2019). Secondary school students' experiences with reading aloud in Uganda: A case study. *Journal of Language Teaching and Research*, 10(2), tt.224-231. Ar gael yn: <http://dx.doi.org/10.17507/jltr.1002.02>

Nicholas, J. (2017). Dylanwad y Profion Darllen Cenedlaethol ar Addysgu a Dysgu Strategaethau Darllen—Astudiaeth Achos mewn Un Ysgol Uwchradd Gymraeg. *Wales Journal of Education*, 19(2). Ar gael yn: <https://doi.org/10.16922/wje.19.2.5>

Owen, M. (2003). Developing a love of reading: Why young adult literature is important. *Orana*, 39(1), tt.11-17.

Prifysgol Bangor. (2025). *Children's language and literacy project to be expanded*. Ar gael yn: <https://www.bangor.ac.uk/news/2022-04-29-childrens-language-and-literacy-project-to-be-expanded> (Cyrchwyd: 13 Chwefror 2025)

Rasinski, T. (2022). *Why focus on reading fluency?* Education Endowment Foundation, 23 Mawrth. Ar gael yn: <https://educationendowmentfoundation.org.uk/news/why-focus-on-reading-fluency#:~:text=Ensuring%20every%20child%20has%20the,to%20them%20in%20the%20future> (Cyrchwyd: 14 Chwefror 2025).

RILL. (2020). *Research on the instruction of literacy with language*. Ar gael yn: <https://www.rillresearch.org/> (Cyrchwyd: 15 Chwefror 2025).

- Schildkamp, K. (2019). Data-based decision-making for school improvement: Research insights and gaps. *Educational research*, 61(3), tt.257-273. Ar gael yn: <https://doi.org/10.1080/00131881.2019.1625716>
- Sibieta, L. (2024). *Major Challenges for Education in Wales*. Ar gael yn: https://ifs.org.uk/sites/default/files/2024-03/Major-challenges-for-education-in-Wales-IFS-REPORT_0.pdf (Cyrchwyd: 14 Chwefror 2025).
- Small, R.V. a Arnone, M.P. 2011. Creative reading. *Knowledge Quest*, 39(4), tt.12.
- Strommen, L.T. a Mates, B.F. (2004). Learning to love reading: Interviews with older children and teens. *Journal of Adolescent & Adult Literacy*, 48(3), tt.188-200. Ar gael yn: <https://doi.org/10.1598/JAAL.48.3.1>
- Watson, S.M. Gable, R.A.Gear, S.B. a Hughes, K.C. (2012). Evidence-Based Strategies for Improving the Reading Comprehension of Secondary Students: Implications for Students with Learning Disabilities. *Learning Disabilities Research & Practice*, 27(2), tt.79-89. Ar gael yn: <https://doi.org/10.1111/j.1540-5826.2012.00353.x>
- Weston, T.J. Hayward, C.N. a Laursen, S.L. (2021). When seeing is believing: Generalizability and decision studies for observational data in evaluation and research on teaching. *American Journal of Evaluation*, 42(3), tt.377-398. Ar gael yn: <https://doi.org/10.1177/109821402093194>
- Whitten, C. Labby, S. a Sullivan, S.L, (2019). The impact of pleasure reading on academic success. *Journal of Multidisciplinary Graduate Research*, 2(1).
- Zywica, J. a Gomez, K. (2008). Annotating to support learning in the content areas: Teaching and learning science. *Journal of Adolescent & Adult Literacy*, 52(2), tt.155-165. Ar gael yn: <https://doi.org/10.1598/JAAL.52.2.6>